Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Pwysigrwydd Presenoldeb
**pob disgybl, ar amser, pob dydd**

Annwyl Rieni / Gwarchodwr,

**Gwyliau yn ystod y tymor**

Ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd parhaus ac yn llwyddo yn yr ysgol, felly mae'n bwysig bod rhieni'n gwneud eu gorau i annog eu plant i fynychu'r ysgol am y 190 diwrnod llawn mewn blwyddyn academaidd fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Cymru) (Diwygiedig) 2006. Felly, rydym yn gobeithio y gallwch gefnogi'r polisi hwn lle bynnag y bo modd drwy drefnu eich gwyliau o gwmpas y 175 diwrnod presennol pan fydd yr ysgol ar gau yn ystod penwythnosau a gwyliau ysgol ac felly ein helpu i gefnogi eich plentyn i lwyddo yn yr ysgol. Mae cydberthynas gref rhwng presenoldeb da a chyflawniad yn yr ysgol ac fel Awdurdod Lleol, rydym yn annog rhieni i beidio â chymryd amser i ffwrdd yn ystod y tymor fel y gall plant elwa'n llawn o'r cyfleoedd y mae eu hysgol yn eu darparu.

Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gall fod amgylchiadau anochel o bryd i'w gilydd lle mae angen cymryd gwyliau teuluol yn ystod amser ysgol ac mae'r gyfraith yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd hwn. **Serch hynny, rhaid deall nad yw hyn yn hawl awtomatig i rieni a bod cymeradwyaeth am absenoldeb o'r ysgol am wyliau yn gwbl yn ôl disgresiwn y pennaeth.**

Mae Rheoliadau Cofrestru Disgyblion (Cymru) 2010 yn rhoi pŵer dewisol i benaethiaid awdurdodi absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor pan fydd rhieni'n gofyn am ganiatâd. Dylid gofyn am ganiatâd ymhell cyn y gwyliau arfaethedig ac yn ysgrifenedig. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ellir caniatáu mwy na 10 diwrnod o absenoldeb at y diben hwn. Bydd y pennaeth yn ystyried nifer o ffactorau cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid awdurdodi unrhyw gyfnodau o wyliau y gofynnir amdanynt yn ystod y tymor. Gallai'r ffactorau hyn gynnwys patrwm presenoldeb diweddar y plentyn, p'un a ellir colli unrhyw gyfnodau allweddol o ddysgu, asesu neu arholiadau yn ystod y cyfnod o absenoldeb ac amgylchiadau teuluol unigol. Bydd y rhain bob amser yn cael eu hystyried fesul achos a'r rhesymau dros unrhyw wrthodiad a roddir yn ysgrifenedig i'r rhiant.

Dim ond ysgolion, nid rhieni, all awdurdodi absenoldeb. Os yw'r pennaeth yn gwrthod cais am absenoldeb am wyliau yn ystod y tymor a bod y rhiant yn dal i benderfynu mynd â'r plentyn ar wyliau, bydd yn cael ei farcio yn y gofrestr fel 'absenoldeb anawdurdodedig'.

Os oes gan ysgolion bryderon am absenoldeb anawdurdodedig, yna gallant ofyn i'r Awdurdod Lleol roi hysbysiad cosb mewn perthynas â phresenoldeb eich plentyn o dan Reoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod y rhiant wedi methu yn ei ddyletswydd i sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gellir ystyried Hysbysiadau Cosb lle:

- Mae gan ddisgybl o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) sydd wedi'u colli oherwydd absenoldebau anawdurdodedig yn y tymor ysgol presennol.

- mae patrwm cyson o gyrraedd yr ysgol yn hwyr h.y. ar ôl i'r gofrestr gau (cod 'U' fel yn y Ddogfen Cyfarwyddyd Codau 2010). Mae cyson yn golygu o leiaf 10 sesiwn o gyrraedd yn hwyr yn ystod y tymor ysgol presennol.

**Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol a gallant fod yn gyfuniad o'r uchod**.

Mae rhagor o fanylion am y cynllun Hysbysiad Cosb ar gael yng Nghod Sir Gaerfyrddin ar gyfer Hysbysiadau Cosb, fodd bynnag, fel Awdurdod Lleol, byddem wrth gwrs yn dymuno osgoi unrhyw ymyrraeth ffurfiol o'r fath a gweithio gyda chi a'n hysgolion i sicrhau lefel gyson ac uchel o bresenoldeb ysgol.